Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Cyngor i Fyfyrwyr
Am ddim • Annibynnol • Cyfrinachol • Diduedd

# Adroddiad Ymchwil Tai



SHELTER CYMRU

# Pwy yw Shelter Cymru?

Rydyn ni'n helpu miloedd o bobl bob blwyddyn ledled Cymru sydd wedi'u heffeithio gan yr argyfwng tai drwy gynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol yn rhad ac am ddim. Pan fo angen, rydyn ni'n herio'n adeiladol ar ran pobl i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ac i wella ymarfer a dysgu.

Rydyn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i helpu pobl i ganfod yr opsiynau gorau i atal digartrefedd, dod o hyd i gartref a'u helpu i reoli eu bywydau eu hunain.

Rydyn ni yma i amddiffyn yr hawl i gartref diogel a brwydro yn erbyn effaith ddinistriol yr argyfwng tai ar bobl ac ar gymdeithas. Drwy ein gwaith ymchwil, ein gwaith polisi a'n hymgyrchu, ein nod yw dylanwadu ar agenda tai a digartrefedd Cymru, drwy graffu ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu a datblygu atebion cadarn i broblemau tai.

> **"Credwn mai cartref yw popeth."**

SHELTER CYMRU



# Cyflwyniad

Mae'r argyfwng costau byw presennol yn rhoi straen ar gyllidebau pawb. Mae cael lle diogel a fforddiadwy i alw'n gartref yn mynd yn fwyfwy anodd. Mae ein myfyrwyr yn wynebu pwysau arbennig oherwydd eu hincwm isel a chyfyngiadau'r opsiynau llety sydd ar gael iddyn nhw.

Yn ystod 2021, cwblhaodd Shelter Cymru waith ymchwil ar gyfer Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yng Nghymru a arweiniodd at yr adroddiad Sylfeini Simsan: Datrys Llety Myfyrwyr[1]. Y nod oedd herio'r syniad *"y dylai myfyrwyr oddef tai israddol fel rhan o'r daith"* a thaflu goleuni ar i ba raddau mae problemau tai yn effeithio ar fywydau beunyddiol myfyrwyr.

Galwodd adroddiad UCM am newid trawsnewidiol i'r farchnad llety myfyrwyr gydag argymhellion y dylai pob myfyriwr allu gwneud y canlynol:

- **dwyn eu landlordiaid i gyfrif,**
- **cael yr un hawliau ac amddiffyniadau waeth lle maen nhw'n byw,**
- **gallu fforddio byw mewn tai diogel ac iach.**

Mae'r ymchwil hwn yn adeiladu ar hyn a ddysgwyd gennym. Fe'i comisiynwyd gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd gyda'r nod o dynnu sylw at realiti byw mewn llety myfyrwyr yn y brifddinas yn arbennig. Mae'n rhoi'r cyfle i ni fwrw golwg fanylach ar y farchnad tai myfyrwyr yn y maes hwn yn ogystal â diweddaru ein dealltwriaeth o'r pwysau sy'n wynebu myfyrwyr sy'n profi costau tai cynyddol a chostau byw yn fwy cyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein methodoleg ymchwil a chanfyddiadau allweddol cyn gorffen gyda chyfres o argymhellion a fydd yn llywio gwasanaeth cynghori a gwaith ymgyrchu Undeb y Myfyrwyr yn y dyfodol.




[1] sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Sylfeini-simsan-Datrys-llety-myfyrwyr.pdf

# Rhagair

Yma yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd, rydyn ni'n elusen sy'n ceisio helpu a grymuso myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Fel rhan o'n gwaith, rydyn ni'n cynnal ymgyrchoedd i dynnu sylw at y materion sy'n bwysig i'n myfyrwyr, yn lobïo dros newid, ac yn cynnig llu o wasanaethau i helpu ein haelodau gyda'u hastudiaethau a'u profiadau fel myfyrwyr.

Un o'r rhain yw'r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrwyr. Dyma wasanaeth cyfrinachol ac annibynnol rhad am ddim sydd ar gael i holl fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'n wasanaeth sy'n annibynnol ar y Brifysgol, a'n rôl yw rhoi cyngor diduedd a gwrthrychol i fyfyrwyr, yn ymwneud â'u hastudiaethau a'u llety myfyrwyr yn bennaf.

Rydyn ni'n cynghori miloedd o fyfyrwyr bob blwyddyn; credwn fod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr a chyfredol o'r opsiynau tai sydd ar gael i fyfyrwyr Caerdydd a'r cyffiniau. Bwriad y prosiect ymchwil hwn, mewn cydweithrediad â Shelter Cymru, oedd ein helpu i ategu ein dealltwriaeth, llywio ein harferion gwaith wrth symud ymlaen, a chefnogi ein hymgyrchoedd dan arweiniad myfyrwyr yn y dyfodol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein timau Cyngor i Fyfyrwyr a Swyddogion Sabothol wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau tai, yn enwedig yng nghyd-destun 2022/23:

- **Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi dod i rym, ac mae gofyn i'r sector tai rhent preifat addasu i arferion newydd er mwyn bodloni safonau tai, sicrhau bod contractau'n cael eu diweddaru, a bod myfyrwyr yn gallu symud i mewn/allan yn yr haf *"fel arfer"*.**



- **Fel arsylwad cenedlaethol, mae'n ymddangos bod niferoedd myfyrwyr ar gynnydd.**
- **Mae'r argyfwng costau byw yn dal i hawlio'r penawdau.**
- **Yn fras, mae'n ymddangos bod mwy o alw am lety rhent preifat, o safbwynt myfyrwyr a'r gymuned ehangach.**
- **Mae gweithredu diwydiannol yn parhau, dan arweiniad yr University College Union, ac mae'n digwydd ym Mhrifysgol Caerdydd.**

Hoffai'r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrwyr, a'n Tîm Swyddogion Sabothol, wybod beth allwn ni ei wneud i helpu ein cymuned myfyrwyr yn well. Rydyn ni'n bwriadu parhau â'n gwaith gyda Shelter Cymru, er mwyn deall yn well y materion tai sy'n wynebu myfyrwyr yn y gymuned leol, a gallu rhoi'r atebion a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw, i lywio eu ffordd drwy'r farchnad dai gyda sicrwydd.



# Methodoleg

Mae casgliadau ein hymchwil wedi'u llywio gan broses casglu data sylfaenol dau gam sy'n cynnwys:

- arolwg ar-lein wedi'i gynnal a'i hyrwyddo gan Shelter Cymru ac Undeb Myfyrwyr Caerdydd ym mis Tachwedd 2022.
- cyfres o gyfweliadau dilynol manwl gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd gan ymchwilwyr-cymheiriaid yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2023.

Mae ein cwestiynau ymchwil wedi'u seilio ar y rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg UCM Cymru lle bynnag y bo modd fel y gallwn wneud cymariaethau uniongyrchol, er mwyn tynnu sylw at faterion penodol a allai fod yn berthnasol i Gaerdydd ac i adlewyrchu sut gallai'r sefyllfa fod wedi newid dros gyfnod o ddwy flynedd.

# Yr arolwg


Cafodd Shelter Cymru ymatebion gan 457 o fyfyrwyr prifysgol sy'n astudio yn ardal Caerdydd. Roedd yr arolwg ar-lein ar agor ar gyfer ymatebion rhwng misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2022.

Roeddem yn falch iawn o'r gyfradd ymateb hon, a oedd yn uwch ar gyfer yr ardal ddaearyddol hon o gymharu ag arolwg cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan. Credwn fod y canfyddiadau'n debygol o gynrychioli'r sefyllfa tai bresennol sy'n wynebu myfyrwyr. Er hynny, cofiwch mai dim ond cyfran fach iawn (1.4%) o'r 34,000 o fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a ymatebodd.

Tra bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd (95%), cawsom ymatebion hefyd gan fyfyrwyr Prifysgol De Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Darparwyd cod post cartref mewn 51% o ymatebion. Cod post CF24 (Y Rhath/Plasnewydd/Cathays) oedd dros hanner ohonynt (144), gyda 49% yn ardaloedd eraill o Gaerdydd.

## **Ffigur 1:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl cymhwyster a statws myfyriwr





Roedd 84% o'r ymatebwyr yn astudio ar gyfer cymhwyster israddedig, 12% yn fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a 4% ar leoliadau ymchwil ôl-raddedig.

Myfyrwyr cartref (Cymru a'r DU) oedd 78% o'r rhai a ymatebodd. Cynrychiolwyd myfyrwyr rhyngwladol a'r UE/AEE ar draws y lefelau cymwysterau.

Fel y gellid disgwyl wrth gynnal arolwg ymhlith myfyrwyr, roedd mwyafrif ein hymatebwyr (79%) rhwng 18 a 21 oed.

## **Ffigur 2:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl grŵp oedran




Myfyrwyr benywaidd oedd fwyaf tebygol o gwblhau'r arolwg, sef 68% o'r ymatebwyr. Dywedodd 14 eu bod nhw'n ystyried eu hunain yn anneuaidd.

Disgrifiodd 75% eu cyfeiriadedd rhywiol fel cyfunrywiol, 15% yn ddeurywiol, 5% yn hoyw neu lesbiaidd a 5% wedi nodi cyfeiriadedd rhywiol arall.

Datganodd 72% o'r ymatebwyr eu bod o gefndir ethnig gwyn. Cafwyd ymateb sylweddol hefyd gan rai â chefndir Asiaidd, sef 16% o ymatebion.

# Y cyfweliadau

Gofynnwyd i holl ymatebwyr yr arolwg ddarparu manylion cyswllt ar gyfer cyfweliad manwl dilynol, a oedd yn cynnwys taliad cymhelliant o £10.

Dewiswyd grŵp bach o fyfyrwyr a oedd eisoes yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i fod yn ymchwilwyr-cymheiriaid a chawsant hyfforddiant ar dechnegau cyfweld priodol gan wasanaeth Opinion Research Services ar ran Shelter Cymru.

Mae ymchwil cymheiriaid yn ddull ymchwil cyfranogol lle mae pobl sydd â phrofiad byw o'r materion sy'n cael eu hastudio yn mynd ati i gyfarwyddo a chynnal yr ymchwil. Ei nod yw grymuso pobl i newid pethau er gwell trwy gymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â'u cymunedau eu hunain. Mae llawer o fanteision i fabwysiadu dull ymchwil cymheiriaid, gan gynnwys:

- Rhoi llais i rai nad ydym yn eu clywed fel arfer: gan fod ymchwilwyr-cymheiriaid yn gallu uniaethu â'r gymuned sy'n cael ei hastudio, maen nhw'n aml yn gallu cysylltu â phobl sy'n gyndyn o ymwneud ag ymchwilwyr proffesiynol.
- Gwerth ychwanegol profiad bywyd: mae gan ymchwilwyr-cymheiriaid eu profiadau bywyd eu hunain, ac mae gwybodaeth a dealltwriaeth fewnol o'r materion sy'n cael eu hastudio yn gallu ategu'r ymchwil.
- Casglu data gwell: pan fydd y rhai sy'n cynnal ymchwil yn rhannu'r un profiadau cyffredin â'r bobl maen nhw'n eu cyfweld, mae'n lleihau'r risg o gamddealltwriaeth ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y sgyrsiau'n berthnasol i'r bobl dan sylw.
- Manteision i ymchwilwyr cymheiriaid: gall ymchwil cymheiriaid ddarparu profiad gwaith a hyfforddiant gwerthfawr a all gynyddu cyflogadwyedd ymchwilwyr-cymheiriaid yn y dyfodol.

Yr ymchwilwyr-cymheiriaid oedd yn gyfrifol am y cyswllt cychwynnol gydag ymatebwyr â diddordeb, gan wneud trefniadau ar gyfer y cyfweliad a'i gynnal naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir.

Cynhaliwyd 11 o gyfweliadau'n llwyddiannus rhwng misoedd Ionawr a Chwefror 2023. Roedden nhw'n cynnwys cydbwysedd da o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig.

Roedden nhw hefyd yn cynrychioli myfyrwyr sy'n byw mewn amryw byd o lety. Roedd rhai yn byw ar eu pen eu hunain, eraill yn rhannu llety/tai amlfeddiannaeth (HMOs). I rai unigolion, dyma oedd eu tro cyntaf mewn llety rhent preifat.

# Canfyddiadau'r ymchwil

Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydyn ni'n darparu dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolwg ar-lein, gan wneud cymariaethau lle bynnag y bo modd ag arolwg blaenorol UCM Cymru.


## Lle mae myfyrwyr yn byw yn ystod y tymor academaidd?

Gofynnodd ein harolwg ar-lein i fyfyrwyr sôn am y math o lety maen nhw'n byw ynddo yn ystod y tymor.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (53%) yn rhentu tŷ a rennir, sef tŷ amlfeddiannaeth (HMO). Roedd 8% arall hefyd yn rhentu'n breifat ond gyda'r eiddo at eu defnydd nhw'n unig neu eu defnydd nhw gyda'u partner/teulu. Roedd 32% yn byw mewn neuaddau preswyl myfyrwyr - gydag 18% mewn neuadd dan berchnogaeth prifysgol/coleg, ac 14% mewn neuadd dan berchnogaeth breifat.

O gymharu â'r darlun cenedlaethol, roedd ymatebwyr Caerdydd yn fwy tebygol o rannu tŷ (53% o'i gymharu â 45%). Roedd y gyfran sy'n byw mewn neuaddau hefyd yn uwch ar gyfer arolwg Caerdydd (32% o gymharu â 20%).

### **Ffigur 3:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl math o lety



## **Tabl 1:** Cymharu math o lety tymor academaidd - Arolygon Caerdydd / UCM Cymru

| Math o lety | Arolwg Caerdydd | | Arolwg UCM Cymru |
|---|---|---|---|
| Rhentu tŷ a rennir (Amlfeddiannaeth) | 53% | 243 | 45% |
| Neuaddau preswyl dan berchnogaeth prifysgol/coleg | 18% | 84 | 15% |
| euaddau preswyl pwrpasol dan berchnogaeth preifat | 14% | 66 | 5% |
| Rhentu preifat ar eich pen eich hun/gyda phartner | 8% | 37 | 19% |
| Gyda theulu/ffrindiau am ddim/rhent îs | 4% | 16 | 5% |
| Math arall o lety | 2% | 7 | 3% |
| Cartref sy'n eiddo'n llwyr i chi/dan forgais | 1% | 4 | 7% |
| **Cyfanswm** | | **457** | |

Dim ond 4% oedd yn byw gyda theulu neu ffrindiau yn rhad ac am ddim neu am rent is ac roedd 1% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn byw yn eu cartref eu hunain gyda morgais neu gartref dan berchnogaeth lwyr.


Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'n fras y darlun a welwn mewn setiau data eraill sy'n bodoli'n barod. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)[2] yn dangos mai *"llety rhent arall"* yw'r prif ddewis clir ymhlith eu setiau data. Mae data HESA hefyd yn dangos bod cyfraddau *"eiddo a gynhelir gan ddarparwr"* a *"neuaddau sector preifat"* yn debyg i'n data cenedlaethol a'n data ar gyfer Caerdydd yn unig, er y bydd hyn yn amrywio yn ôl y llety a ddarperir gan bob sefydliad addysg.

O'r ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd, gallwn ddweud:

- Roedd ymatebwyr israddedig yn fwy tebygol o fod yn rhentu tŷ a rennir na'r rhai sy'n dilyn cwrs lefel uwch.
- Roedd israddedigion hefyd yn fwy tebygol o fod yn aros mewn neuaddau dan berchnogaeth prifysgol.
- Roedd mwy o ymatebwyr sy'n astudio cyrsiau ôl-raddedig neu gymwysterau eraill yn byw mewn neuaddau preswyl preifat.
- Roedd myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau eraill hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw gyda theulu/ffrindiau.
- Roedd myfyrwyr o'r DU a ymatebodd i'r arolwg yn fwy tebygol o fod yn rhentu tŷ a rennir na'u cyfoedion rhyngwladol neu rai o'r UE/AEE a oedd yn fwy tebygol o fyw mewn coleg neu neuaddau preifat.

[2] www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/where-study

## **Ffigur 4:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl lefel cymwysterau a'r math o lety




Ymhlith y 7 a ddywedodd eu bod yn byw mewn *"llety arall"*, nododd dau nad oedden nhw wedi sicrhau unrhyw le i fyw yn ystod y tymor eto. Dywedodd un, *"Dwi heb lwyddo i gael llety, felly dwi'n cysgu ar soffa ffrindiau"*.


Ar sail trafodaethau gydag Undeb y Myfyrwyr, rydyn ni'n deall bod y diffyg llety sydd ar gael yn dechrau dod yn broblem i rai myfyrwyr, ac yn yr achosion mwyaf eithafol, roedd rhai'n gorfod ystyried a oedd hi'n ymarferol iddyn nhw dderbyn y cynnig ar gyfer y cwrs o'u dewis.



# Faint mae myfyrwyr yn ei dalu?

Mae 63% o'r myfyrwyr a holwyd yn talu £120 neu lai yr wythnos. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o fyfyrwyr yn talu mwy na'r swm hwn (166 o 457). Roedd 15 yn talu dros £181 yr wythnos.

## **Ffigur 5:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl costau llety




Roedd myfyrwyr Caerdydd a ymatebodd i'n harolwg yn talu mwy am eu llety na'r rhai a ymatebodd i arolwg UCM Cymru yn 2021. Roedd traean o'r rhai a ymatebodd i arolwg UCM ledled Cymru yn talu llai na £90 yr wythnos am eu llety o'i gymharu â dim ond 16% o fyfyrwyr Caerdydd.

## **Tabl 2:** Cymharu costau llety - Arolygon Caerdydd / UCM Cymru

| Swm a dalwyd | Arolwg Caerdydd | | Arolwg UCM Cymru |
|---|---|---|---|
| Dan £90 yr/w | 16% | 74 | 34% |
| £91-120 yr/w | 47% | 213 | 41% |
| £121-150 yr/w | 22% | 99 | 15% |
| £151-180 yr/w | 11% | 52 | 6% |
| £181+ yr/w | 3% | 15 | 3% |
| Swm arall | 1% | 4 | 34% |
| | **Cyfanswm** | **457** | |

O ran cymhariaeth bellach, mae arolwg National Student Accommodation Survey[3] Save the Student yn awgrymu bod rhent cyfartalog Cymru yn 2023 yn £484 fesul mis calendr neu £112 yr wythnos, sy'n cyd-fynd yn fras â'n canfyddiadau ar gyfer Caerdydd.

Mae unrhyw wahaniaethau mewn costau llety rhwng arolygon Caerdydd ac arolygon cenedlaethol yn debygol o fod o ganlyniad i gynnydd ym mhrisiau rhent dros y 2 flynedd ddiwethaf, fel unrhyw wahaniaeth rhwng y costau yng Nghaerdydd o'i gymharu â lleoliadau prifysgolion eraill. Cynyddodd prisiau rhent preifat yng Nghymru 3.5% yn y deuddeg mis hyd at fis Rhagfyr 2022.[4]

[3] www.savethestudent.org/accommodation/national-student-accommodation-survey-2023.html
[4] www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/indexofprivatehousingrentalprices/december2022

Roedd ymchwil y BBC a oedd yn canolbwyntio ar y farchnad rentu yng Nghaerdydd[5] ym mis Tachwedd 2022, yn dangos bod cyfraddau llog morgeisi uwch, chwyddiant, diffyg cyflenwad a landlordiaid sy'n tynnu allan o'r farchnad oll wedi'u rhoi fel rhesymau dros fwy o alw yn y farchnad rentu.

Cyfeiriodd yr adroddiad at ffigurau Rightmove a oedd yn dangos mai £1,041 fesul mis calendr oedd rhent ar gyfartaledd yng Nghaerdydd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi yn 2022, i fyny o £870 ar yr un cyfnod yn 2021. Mae hynny'n gynnydd o 19.6%. Ar draws Cymru, awgrymodd ffigurau Rightmove fod cost eiddo rhent ar gyfartaledd yn £974 fesul mis calendr - cynnydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol.

## **Tabl 3:** Costau llety yng Nghaerdydd yn ôl math o lety

| Math o lety | Dan £90 yr/w | £91-120 yr/w | £121-150 yr/w | £151-180 yr/w | £181+ yr/w | Swm arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartref dan berchnogaeth lwyr/ cartref â morgais | 0% | 0% | 50% | 0% | 50% | 0% |
| Math arall o lety | 0% | 43% | 14% | 14% | 14% | 14% |
| Rhentu preifat ar ei ben ei hun/ gyda phartner | 11% | 32% | 16% | 32% | 8% | 0% |
| Neuaddau preswyl pwrpasol dan berchnogaeth preifat | 5% | 20% | 37% | 28% | 8% | 3% |
| Neuaddau preswyl dan berchnogaeth prifysgol/coleg | 1% | 39% | 45% | 12% | 1% | 1% |
| Gyda theulu/ffrindiau am ddim/llai o rent | 25% | 44% | 25% | 6% | 0% | 0% |
| Rhentu tŷ a rennir (Amlfeddiannaeth) | 25% | 60% | 10% | 4% | 1% | 0% |
| **Cyfanswm** | **16%** | **47%** | **22%** | **11%** | **3%** | **1%** |

Wrth gymharu costau yn ôl math o lety, gallwn weld:

- Mai perchnogion preswyl sy'n debygol o fod â'r costau llety uchaf gyda 50% o'r ymatebwyr yn talu dros £181 yr wythnos.
- Roedd y costau'n amrywio i'r rhai sy'n rhentu'n breifat, boed hynny ar eu pen eu hunain neu gyda phartner, gyda 32% yn talu £91-120 yr wythnos, a chyfran gyfartal yn talu £151-180.
- I'r rhai a oedd yn byw mewn neuaddau preswyl, roedd neuaddau dan berchnogaeth breifat yn ddrutach na'r rhai dan berchnogaeth prifysgolion. Roedd 36% o breswylwyr neuaddau preifat yn talu dros £151 yr wythnos o'i gymharu â dim ond 13% o drigolion neuaddau prifysgol.
- Rhentu tŷ a rennir (amlfeddiannaeth) oedd yr opsiwn llety rhataf, gyda 60% o'r ymatebwyr hyn yn talu £91-120 yr wythnos.


Roedd biliau eraill wedi'u cynnwys yng nghostau llety 40% o'r ymatebwyr. Fel y byddem yn ei ddisgwyl, roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir i'r rhai mewn neuaddau preifat neu neuaddau prifysgol (85% a 96%). Y rheini a oedd yn byw mewn tŷ a rennir (amlfeddiannaeth) oedd yn fwyaf tebygol o orfod talu biliau eraill ar wahân.

[5] www.bbc.co.uk/news/uk-wales-63600182

# Ydy myfyrwyr yn meddwl bod eu llety yn cynnig gwerth da am arian?

Roedd 52% o fyfyrwyr yn credu bod eu llety yn cynnig gwerth *"da"* neu *"da iawn"* am arian. Dim ond 12% o fyfyrwyr a roddodd sgôr *"gwael"* neu *"wael iawn"* i'w llety.

## **Ffigur 6:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl barn am werth am arian




Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau arolwg UCM Cymru lle mai dim ond 41% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod eu llety yn cynnig gwerth am arian *"da"* neu *"da iawn"*. Disgrifiodd cyfrannau cyfartal (35%) eu llety fel gwerth *"digonol"* yn y ddau arolwg.

## **Tabl 4:** Cymharu barn am werth am arian - Arolygon Caerdydd /UCM Cymru

| Barn | Arolwg Caerdydd | | Arolwg UCM Cymru |
|---|---|---|---|
| Da iawn | 16% | 75 | 15% |
| Da | 36% | 166 | 26% |
| Digonol | 35% | 161 | 35% |
| Gwael | 10% | 44 | 17% |
| Gwael iawn | 2% | 11 | 7% |
| | **Cyfanswm** | **457** | |

## Pa broblemau mae myfyrwyr yn eu hwynebu yn eu llety?

Gofynnwyd i ymatebwyr raddio safon eu llety hefyd. Dywedodd 48% o'r ymatebwyr fod safon eu llety yn *"dda"* neu'n *"dda iawn"* o'i gymharu â 41% ar gyfer arolwg UCM Cymru, ac roedd lefelau tebyg yn credu bod y safon yn *"ddigonol"* (32% i Gaerdydd a 35% i UCM Cymru).

Ymatebwyr a oedd yn byw mewn neuaddau preifat oedd fwyaf tebygol o gredu bod ansawdd eu llety yn *"dda"* neu'n *"dda iawn"*, a hynny ar 77%. Dyma ymateb 75% o'r ymatebwyr perchen-feddianwyr a'r rhai a oedd yn byw gyda theulu a ffrindiau hefyd.

Y rhai a oedd yn byw mewn mathau eraill o lety oedd fwyaf tebygol o ddweud bod y safon yn *"wael"* neu'n *"wael iawn"* (43%), ac yna'r rhai mewn tŷ a rennir (26%).


Y broblem fwyaf cyffredin a nodwyd yn yr arolwg oedd tamprwydd neu lwydni, gyda bron hanner y myfyrwyr yn dweud bod hyn yn broblem yn eu llety nhw. Cyfleusterau (e.e. toiledau a chawodydd), offer ac eiddo mewn cyflwr gwael gafodd y gyfradd ymateb uchaf, yn ogystal â phroblemau gallu fforddio llety.

Mae hyn yn adlewyrchu ein profiad yn Shelter Cymru, lle gwelwn fod cyfran fawr o'n llwyth gwaith yn mynd ar helpu pobl sy'n dioddef problemau tai fel tamprwydd, diffyg gwaith trwsio a materion fforddiadwyedd.

Roedd rhwydd hynt i'r ymatebwyr ddatgan cymaint o broblemau ag y mynnent mewn ymateb i'r cwestiwn aml-ddewis hwn yn yr arolwg.



## **Ffigur 7:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl problemau llety




Y prif themâu a nodwyd yn adran *"arall"* arolwg Caerdydd oedd diffyg cyswllt â'r landlord, diogelwch, a materion yn ymwneud â storio a chasglu gwastraff.

## **Tabl 5:** Cymharu problemau llety - Arolygon Caerdydd/ UCM Cymru

| Problem llety | Arolwg Caerdydd | | Arolwg UCM Cymru |
|---|---|---|---|
| Anghydfod ymhlith y rhai sy'n rhannu'r llety | 9% | 43 | |
| Aflonyddu gan landlord/asiantaeth | 11% | 49 | 31% |
| Dim | 12% | 53 | |
| Problem arall | 12% | 53 | 29% |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol/sŵn | 16% | 73 | |
| Cnofilod neu blâu | 18% | 82 | 24% |
| Fforddiadwyedd | 21% | 95 | 33% |
| Eiddo mewn cyflwr gwael | 28% | 129 | 47% (cyflwr gwael) |
| Offer mewn cyflwr gwael | 32% | 146 | |
| Cyfleusterau mewn cyflwr gwael | 35% | 159 | |
| Tamprwydd neu lwydni | 44% | 202 | 53% |

Gwelwyd ymatebion tebyg yn arolwg UCM Cymru, er bod tamprwydd a llwydni wedi derbyn cyfradd ymateb uwch yn yr arolwg cenedlaethol ar 53% o'i gymharu â 44% yn arolwg Caerdydd. Hefyd, fe wnaeth arolwg UCM Cymru dynnu sylw at fwy o achosion o broblemau gyda landlordiaid/asiantau.

## **Tabl 6:** Problemau llety yng Nghaerdydd yn ôl math o lety

| Math o lety | Tamprwydd neu lwydni | Eiddo mewn cyflwr gwael | Offer mewn cyflwr gwael | Cyfleusterau mewn cyflwr gwael | Fforddiadwyedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhentu tŷ a rennir (Amlfeddiannaeth) | 73% | 69% | 65% | 61% | 42% |
| Neuaddau Prifysgol/Coleg | 11% | 14% | 19% | 23% | 14% |
| Neuaddau preswyl preifat | 6% | 8% | 9% | 11% | 22% |
| Rhentu preifat ar ei ben ei hun/gyda phartner | 5% | 6% | 6% | 4% | 12% |
| Math arall o lety | 1% | 1% | 1% | 0% | 4% |
| Gyda theulu/ffrindiau | 3% | 2% | 1% | 1% | 4% |
| Cartref dan berchnogaeth lwyr/ cartref â morgais | 0% | 0% | 0% | 0% | 2% |

Roedd y cyfraddau ymateb uchaf i *"damprwydd neu lwydni"* a *"chyflwr gwael"* gan fyfyrwyr sy'n rhentu tŷ a rennir (amlfeddiannaeth). Daeth 73% o'r holl ymatebion am tamprwydd a llwydni gan y grŵp hwn a dros 60% o'r ymatebion cyflwr gwael.

Neuaddau prifysgol dderbyniodd y lefelau uchaf nesaf o broblemau ar draws y categorïau hyn, gydag 11% o ymatebion am damprwydd a llwydni, 14% o ymatebion am eiddo mewn cyflwr gwael a 23% o ymatebion am gyfleusterau mewn cyflwr gwael.

Pan adroddwyd am broblem cyflwr gwael, tamprwydd neu lwydni, dim ond 29% a ddywedodd fod y broblem wedi'i datrys mewn 1-7 diwrnod, tra'r oedd 2% wedi gorfod aros dros 28 diwrnod, ond yn fwy pryderus, ni lwyddodd 21% i sicrhau datrysiad i'w problem o gwbl. Roedd cyfraddau ymateb yn weddol gytbwys ar draws y gwahanol fathau o lety.

# Ydy myfyrwyr erioed wedi bod dan bwysau i lofnodi contract ar gyfer llety?

Dim ond 29% o'r ymatebwyr i arolwg Caerdydd a ddywedodd eu bod wedi teimlo dan bwysau i lofnodi contractau neu gytundebau prydles heb eu deall yn llawn, na chael yr amser i ystyried eu hopsiynau. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r 41% o ymatebwyr i Arolwg UCM Cymru.

## **Tabl 7:** Cymharu a oedd myfyrwyr dan bwysau i lofnodi contractau - Arolygon Caerdydd / UCM Cymru

| Dan bwysau i lofnodi | Arolwg Caerdydd | | Arolwg Tai Myfyrwyr Cymru |
|---|---|---|---|
| Oeddwn | 29% | 132 | 41% |
| Nac oeddwn | 71% | 325 | 59% |

Y rhai a oedd yn rhentu'n breifat, naill ai mewn llety a rennir neu ar eu pen eu hunain/gyda phartner, a oedd yn fwyaf tebygol o ddweud bod y broses o lofnodi contract yn straen, sef 33% (llety a rennir) a 32% (byw ar eu pen eu hunain/gyda phartner) o ymatebwyr o'r math hwn o lety. Dywedodd 23% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn neuaddau prifysgol a 20% mewn neuaddau preifat eu bod yn teimlo'r un fath.


Dangosodd adroddiad UCAS[6] am lety fod dros 25% o fyfyrwyr o'r ail flwyddyn ymlaen wedi sicrhau eu llety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf erbyn mis Rhagfyr. Yn ôl eu hymchwil nhw, roedd 18% o fyfyrwyr Caerdydd wedi sicrhau eu llety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf erbyn mis Hydref - wythnosau'n unig i mewn i'r calendr academaidd. Dangosodd eu canlyniadau hefyd fod *"bron 40% o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn cael cynnig cymhelliad wrth chwilio am rywle i fyw"* - prawf pellach bod y sector tai dan bwysau ac yn cael ei yrru gan y farchnad.

## Lle mae myfyrwyr yn troi am gymorth?

Dywedodd mwy na hanner y myfyrwyr (57%) y bydden nhw'n troi at ffrindiau neu deulu am gymorth ar unrhyw faterion yn ymwneud â llety. Dywedodd 48% y bydden nhw'n gofyn am gymorth gan eu Hundeb y Myfyrwyr. Nifer cymharol isel o fyfyrwyr a ddywedodd y bydden nhw'n ceisio cymorth gan wasanaethau tai a chynghori arbenigol, fel Canolfan Cyngor ar Bopeth (12%) a Shelter Cymru (4%). Gallai'r ymatebwyr roi sawl ateb.

Mae hwn yn ddarlun tebyg i'r un a welwyd mewn ymatebion i arolwg UCM Cymru, er y dylem nodi bod yr ymatebion a oedd ar gael yma fymryn yn wahanol. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr myfyrwyr Caerdydd hyd yn oed yn fwy tebygol o droi at deulu a ffrindiau am gymorth yn hytrach na gwasanaethau cymorth ffurfiol. Hefyd, roedden nhw'n llai tebygol o droi at fforymau ar-lein neu at y cyfryngau cymdeithasol o gymharu â'u cymheiriaid Cymru gyfan (16% o ymatebwyr o gymharu â 24%)

**Ffigur 8:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl lle gofynnwyd am gymorth




[6] content.knightfrank.com/research/1663/documents/en/knight-frank-ucas-student-accommodation-survey-report-2020-6841.pdf

## **Tabl 8:** Cymharu ffynhonnell gymorth - Arolygon Caerdydd /UCM Cymru

| Support Source | Arolwg Caerdydd | | Arolwg Tai Myfyrwyr Cymru |
|---|---|---|---|
| Darparwr cymorth arall | 3% | 13 | 14% |
| Shelter Cymru | 4% | 16 | 8% |
| Cynghorydd y ddinas | 4% | 19 | Heb ofyn |
| Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr | 5% | 22 | Heb ofyn |
| Cyfreithwyr proffesiynol | 8% | 35 | 13% |
| Tiwtor personol neu ddarlithydd | 8% | 35 | 8% |
| Cyngor ar Bopeth | 12% | 56 | 23% |
| Fforymau ar-lein neu'r cyfryngau cymdeithasol | 16% | 74 | 24% |
| Prifysgol, coleg | 19% | 88 | 31% |
| Undeb y Myfyrwyr | 48% | 221 | 31% |
| Teulu neu ffrindiau | 57% | 260 | 54% |

Fel y sylwodd adroddiad arolwg UCM Cymru[7] mae'n bwysig deall *"pam nad yw myfyrwyr yn troi at wasanaethau cymorth annibynnol a phroffesiynol sy'n rhad ac am ddim, a sut y gallwn ni ddatrys hyn"*.

O ystyried bod nifer sylweddol o fyfyrwyr a fydd yn siarad â ffrindiau neu deulu am broblemau, dylid hefyd ystyried sut y gellir galluogi'r grwpiau hyn yn well i gyfeirio'n effeithiol.




[7] sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Sylfeini-simsan-Datrys-llety-myfyrwyr.pdf

# Sut mae problemau llety wedi effeithio ar fyfyrwyr?

Dywedodd 35% o'r ymatebwyr fod problemau gyda'u llety yn cael effaith ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Dywedodd 22% arall fod problemau gyda thai yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol a dywedodd 14% fod problemau tai wedi cael effaith negyddol ar eu cyrhaeddiad academaidd. Roedd modd rhoi sawl ymateb.

## **Ffigur 9:** Ymatebwyr yr arolwg yn ôl sut mae problemau llety wedi effeithio arnyn nhw




Roedd cyfraddau ymateb yn is ar draws yr holl ystod o effeithiau o'i gymharu ag Arolwg UCM Cymru. Fodd bynnag, ni ddylai hyn beri inni laesu dwylo wrth ystyried y canlyniadau. Yn fwyaf pryderus, dywedodd hanner yr ymatebwyr i arolwg Caerdydd fod eu llety yn cael rhyw effaith negyddol ar eu bywydau.

## **Tabl 9:** Cymharu effaith problemau llety - Arolygon Caerdydd/ UCM Cymru

| Effaith | Arolwg Caerdydd | | Arolwg UCM Cymru |
|---|---|---|---|
| Iechyd meddwl a lles | 35% | 160 | 66% |
| Iechyd corfforol a lles | 22% | 100 | 36% |
| Cyrhaeddiad academaidd | 14% | 63 | 27% |
| Perthynas â theulu neu ffrindiau | 9% | 40 | 24% |
| Ymrwymiadau gwaith neu wirfoddoli | 7% | 32 | 12% |
| Problem arall | 2% | 10 | 19% |

Cartref yw popeth i Shelter Cymru. Credwn fod gan bawb yng Nghymru yr hawl i gartref gweddus. Heb gartrefi o ansawdd da sy'n saff a diogel, mae'n amhosibl byw bywydau iach, hapus a chynhyrchiol.

# Themâu allweddol ac argymhellion

Trafodir themâu allweddol o'n hymchwil yn fanylach yma. Maen nhw wedi'u llywio'n bennaf gan:

- gwestiwn yr arolwg *"pe bai'r gallu gennych i newid un peth am lety myfyrwyr, beth fyddai hwnnw a pham?"*
- cwestiwn y cyfweliad *"pwy ydych chi'n meddwl sydd ar fai am safon tai myfyrwyr?"*

Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n cynnwys dyfyniadau uniongyrchol gan fyfyrwyr gan ein bod yn credu mai dyma'r ffordd fwyaf pwerus o bortreadu'r sefyllfaoedd tai maen nhw yn ei chanol hi ar hyn o bryd.

## Fforddiadwyedd a'r argyfwng costau byw

***"Yr unig welliant y galla i ei weld yw bod diwedd y semester yn nesáu, a'r addewid o dywydd cynhesach."***

- Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

***"Diolch byth, dwi'n byw ger y llyfrgell oherwydd dydy nghartref i ddim yn lle cyfforddus i astudio."***

- Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

Dywedodd 21% o'r rhai a ymatebodd yr arolwg fod problemau fforddiadwyedd gyda'u llety. Cafodd y neges hon ei hailadrodd gan bobl a gafodd eu cyfweld, gyda dim ond traean yn dweud bod eu llety yn fforddiadwy neu'n cynrychioli gwerth da am arian.

Dywedodd rhai myfyrwyr ôl-radd a holwyd, a oedd wedi astudio mewn rhannau eraill o'r DU yn y gorffennol, nad oedd Caerdydd yn cynnig gwerth da am arian o'i gymharu â dinasoedd eraill fel Manceinion a Lerpwl.

Codwyd yr argyfwng costau byw fel pryder i'r holl fyfyrwyr y buom yn siarad â nhw, yn arbennig cost gwres canolog. Dywedodd 50% o fyfyrwyr eu bod yn fwy tebygol o dreulio amser i ffwrdd o'u cartref yn ystod y gaeaf, er mwyn cadw'n gynnes a lleihau costau. Dywedodd un myfyriwr israddedig ei fod wedi bod yn defnyddio'r gawod yn y gampfa leol sawl gwaith yr wythnos gan fod hyn yn rhan o bris aelodaeth y gampfa.

Dywedodd myfyriwr israddedig arall nad oedd yn meddwl am ei ddefnydd o nwy a thrydan yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, ond bod hynny'n bryder amlwg yn 2022/23.

Lle'r oedd myfyrwyr a holwyd yn rhannu llety, doedd yr un ohonynt yn teimlo bod costau cynyddol cyfleustodau wedi achosi gwrthdaro rhwng cyd-letywyr, ond roedden nhw'n ymwybodol iawn wrth danio'r gwres canolog, ac roedd amrywiol ymagweddau at leihau cost biliau. Roedd un aelwyd wedi cytuno i'w roi ymlaen am hyd at ddwy awr bob nos, tra bod aelwyd arall heb ei roi ymlaen o gwbl yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2022.

Dywedodd mwyafrif y rhai a holwyd fod byw dan amodau oer yn cael effaith andwyol ar eu hastudiaethau a'u lles, gan ei bod hi'n anoddach canolbwyntio ar astudio gartref, gydag un myfyriwr yn dweud ei fod wedi colli'r awydd i weithio o'r herwydd.

***"Dydy rheoli'r costau ddim yn realistig gyda faint o gyllid myfyrwyr rydyn ni'n ei dderbyn. Yn ddelfrydol, fe hoffwn i wneud llety myfyrwyr yn fwy fforddiadwy."***
- Ymatebwr yr arolwg

Yn ôl arolwg diweddar UCM[8] o 3,500 o fyfyrwyr a phrentisiaid - gan gynnwys 500 yng Nghymru - mae 96% o fyfyrwyr yn cwtogi ar wariant ac mae bron i draean gyda dim ond £50 y mis yn weddill i'w wario ar ôl talu rhent a biliau.

Maen nhw'n dweud bod *"prisiau llety myfyrwyr wedi cynyddu 61% yn y degawd diwethaf; mae chwyddiant mewn ffigurau dwbl gyda phrisiau ynni a chost siopa bwyd wythnosol yn codi'n aruthrol."*

Mae myfyrwyr hefyd yn *"wynebu cost argyfwng dysgu"*, gyda 68% yn methu fforddio deunyddiau cwrs mwyach. Mae 92% o fyfyrwyr yn dweud bod pwysau ariannol yn effeithio ar eu hiechyd meddwl, ond dim ond 1 o bob 5 sydd wedi cael help gan y llywodraeth.

Mae sawl tebygrwydd rhwng marchnad tai myfyrwyr yng Nghaerdydd a'r argyfwng tai ehangach yng Nghymru. Mae Shelter Cymru yn gweld mwy o aelwydydd yn dod atom ni am gyngor ynghylch dyledion. Mae codiadau mewn rhent yn uwch na'r codiadau cyflog ac mae costau tai yn bryder penodol i'r rhai ar incwm isel, yn enwedig myfyrwyr.

## Argaeledd

Trwy ein harolwg, fe wnaethom ni nodi llond llaw o achosion lle'r oedd myfyrwyr wedi methu sicrhau llety addas, fforddiadwy am fisoedd lawer ar ôl cychwyn eu cwrs. Rydyn ni'n deall bod diffyg llety sydd ar gael yn dechrau dod yn broblem i rai myfyrwyr, gyda'r achosion mwyaf eithafol yn eu gorfodi i ystyried pa mor ymarferol yw derbyn cynnig y cwrs yn y lle cyntaf.

***"Mae rhyddhau rhestrau tai mor gynnar yn y flwyddyn academaidd yn cyfrannu at y rhuthr a'r diffyg tai sydd ar gael."***
- Myfyriwr sy'n rhentu ar ei ben ei hun

Mynegodd myfyrwyr rwystredigaeth gyda'r amserlenni ar gyfer adnewyddu'r contract ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol hefyd, gan ddweud bod yn rhaid iddyn nhw benderfynu erbyn mis Hydref neu fis Tachwedd a oedden nhw am aros yn y tŷ am y flwyddyn academaidd nesaf ai peidio, a bod yn rhaid iddyn nhw lofnodi contract neu dalu blaendal i sicrhau hyn. Cafodd un myfyriwr mewn llety amlfeddiannaeth 48 awr i benderfynu, er gwaethaf y ffaith mai dim ond mis ynghynt yr oedd wedi symud yno.

Doedd myfyrwyr ddim yn deall y rhesymeg dros orfod adnewyddu contractau mor gyflym, gan nodi pryderon ynghylch peidio â gwybod a oedd safon y tai yn rhywbeth y bydden nhw am barhau i fyw ynddo, a fydden nhw'n cyd-dynnu â'u cyd-letywyr, neu a oedd yr ardal yn lle braf neu ddymunol i barhau i fyw ynddi. Roedd 33% o'r myfyrwyr y buon ni'n siarad â nhw o'r farn y byddai mis Ionawr yn amser mwy priodol i ystyried adnewyddu contractau gan fod misoedd Hydref a Thachwedd yn adeg pan mae myfyrwyr yn dal i ddod i arfer â'u cartrefi newydd a'u cyd-letywyr.

[8]www.nus-wales.org.uk/cost_of_living_crisis

## Cyflwr yr eiddo

Arweiniodd trafodaethau am fforddiadwyedd hefyd at sylwadau ynghylch faint o werth am arian yr oedd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn ei gael o ystyried cyflwr gwael yr eiddo.

Roedd cryn dipyn o ymatebion yn canolbwyntio ar y mater hwn. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid cynyddu'r safon er mwyn cynnig gwerth am arian gwell, neu y dylid adolygu'r prisiau i liniaru yn erbyn gorelwa a safonau isel.

Roedd problemau gyda thamprwydd, llwydni a chyflwr gwael yn gyffredin ac rydyn ni'n gwybod o'r arolwg fod nifer sylweddol o fyfyrwyr yn credu bod eu llety'n cael effaith negyddol ar eu hiechyd.

***"Mae yna lwydni wedi bod ymhob tŷ myfyriwr dwi wedi byw ynddo."***
– Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

***"Dwi eisiau i'r llwydni 'ma fynd, dwi wedi cael pedair haint ar y frest mewn pedwar mis."*** – Ymatebwr yr arolwg

***"Mae cryn dipyn o lwydni – a'r cwbl maen nhw'n ei wneud yw paentio drosto, sy ddim yn datrys y broblem. Roedd yn golygu ein bod ni i gyd yn swp sâl."***– Ymatebwr yr arolwg.

Dim ond 16% o'r myfyrwyr y gwnaethom ni gyfweld â nhw oedd yn teimlo bod eu llety mewn cyflwr da iawn ac nad oedd unrhyw broblemau rheolaidd i'w hadrodd.

Roedd dros hanner o'r farn bod eu tai o safon dda ond roedd llawer o broblemau rheolaidd fel llwydni, tamprwydd a boeler diffygiol.

Soniodd traean wrthym am broblemau rheolaidd, heb eu datrys gyda llwydni, tamprwydd codi, cyflenwad dŵr poeth ysbeidiol a phroblemau cysylltiedig â phlâu.

Roedd un enghraifft yn cynnwys tŷ amlfeddiannaeth heb ei lanhau pan symudodd y myfyrwyr i mewn, dim lloriau wedi'u gosod, gwlithod yn yr oergell a bod y waliau mewn rhannau o'r tŷ yn *"malurio"*. Hefyd, roedd gan y tŷ lwydni du mawr ymhob ystafell, tamprwydd codi, gwifrau moel a llygod mawr yn y wal geudod.

Ateb asiantau gosod i broblem gyffredin llwydni oedd awyru'r eiddo a hefyd defnyddio'r gwres canolog am gyfnodau anfforddiadwy yn y pen draw.

***"Er mwyn helpu i ymdrin â'r llwydni, cawsom gynnig £50 y mis tuag at ein bil gwresogi pe bydden ni'n anfon darlleniadau mesurydd wythnosol at yr asiant gosod i brofi bod ein gwres wedi bod ymlaen am wyth awr y dydd."***
– Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

***"Gwnewch yn siŵr fod modd byw yno mewn gwirionedd - ni ddylech fyw gydag offer wedi torri, tamprwydd a llwydni fod yn dderbyniol dim ond oherwydd mai llety myfyrwyr yw e."***
– Ymatebwr yr arolwg.

Dros y 12 mis diwethaf, mae pryderon am damprwydd a llwydni mewn llety wedi cael cryn sylw. Dyfarnodd cwest i farwolaeth Awaab Ishak, 2 oed, fod hyn wedi digwydd trwy ddod i gysylltiad hir â llwydni du yn ei gartre tai cymdeithasol yn Rochdale. Doedd *"dim awyru digonol yn yr eiddo, a doedd dim offer digonol yno ar gyfer gweithgareddau byw bob dydd gan arwain at ormod o damprwydd a chyddwysiad"*.

Mewn llety rhent preifat, y landlord sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o waith trwsio, gan gynnwys:

- strwythur a thu allan yr adeilad
- sinciau, baddonau, toiledau a ffitiadau iechydol eraill, gan gynnwys pibellau a draeniau
- gwres a dŵr poeth
- yr holl gyfarpar nwy, pibellau, ffliwiau ac awyru
- gwifrau trydanol.

Hefyd, rhaid i'r landlord sicrhau bod eich cartref yn addas i fyw ynddo ac yn rhydd o unrhyw beryglon a allai effeithio ar iechyd a diogelwch unrhyw un ar eich aelwyd.

Gall cyddwysiad, tamprwydd treiddiol neu damprwydd codi achosi lleihder, a dydy hi ddim bob amser yn hawdd canfod pwy sy'n gyfrifol am ddatrys problemau gan ei bod yn aml yn anodd mynd at wraidd y broblem.

Fel arfer, landlordiaid sy'n gyfrifol am wneud gwaith trwsio os yw'r tamprwydd yn ganlyniad i'r canlynol:

- pibellau sy'n gollwng
- nam strwythurol (fel to sy'n gollwng neu wal wedi cracio)
- cwrs gwrthleithder nad yw'n gweithio mwyach

Yn aml iawn, achosir cyddwysiad gan ddiffyg awyru, diffyg insiwleiddio, neu wres annigonol. Pan fydd hyn yn wir, rhaid i'r landlord gymryd camau i unioni'r broblem, er enghraifft, drwy wella'r gwres neu'r awyru yn yr eiddo.

Dylai myfyrwyr gofio a theimlo eu bod nhw'n gallu cysylltu ag adran iechyd yr amgylchedd y cyngor lleol os nad yw'r landlord yn mynd i'r afael â'r broblem tamprwydd. Gellir archwilio'r eiddo, a chymryd camau yn erbyn y landlord, os ydyn nhw'n credu bod tamprwydd a/neu lwydni sy'n tyfu yn achosi perygl i'w hiechyd.

## Atebolrwydd a Chamau Unioni

Dim ond 16% o'r myfyrwyr a gafodd eu cyfweld oedd yn teimlo'n fodlon â'r ffordd y cafodd unrhyw faterion tai eu rheoli. Roedd 16% arall yn teimlo bod yr amseroedd ymateb ar gyfer gwaith trwsio yn dda ar y cyfan, ond bod materion difrifol yn fwy tebygol o gael eu trwsio'n gyflym, yn hytrach na mân atgyweiriadau neu waith cynnal a chadw a oedd naill ai'n cymryd cryn amser i'w datrys neu ddim yn cael eu datrys o gwbl.

***"Mae'r tŷ ei hun yn reit neis ond mae 'na wastad broblem yn codi ac felly mae hynny wastad yng nghefn fy meddwl."***

– Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

***"Roedd yr asiantaeth gosod yn anfon pobl draw i weld y tŷ pan nad oedden nhw wedi datrys unrhyw un o'n problemau ni."***

– Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

Clywsom am un tŷ amlfeddiannaeth a oedd â phroblemau di-ri heb eu datrys yn gyson, a'u bod wedi troi at Undeb y Myfyrwyr a Shelter Cymru am gyngor, cyn i'r mater gael ei uwchgyfeirio i Gyngor Caerdydd yn y pen draw. Er gwaethaf ymwneud asiantaethau allanol, roedd y problemau bob amser yn cael eu rhoi yn ôl yn nwylo rheolwr yr asiant gosod tai - roedden nhw'n teimlo bod hynny'n enghraifft o wrthdaro buddiannau a bod angen rhywun diduedd i'w datrys.

Cwblhawyd peth gwaith addurno mewnol, a chynigiwyd rhywfaint o iawndal ariannol drwy'r asiant gosod ond ni dderbyniwyd unrhyw beth erioed.

Dywedodd un myfyriwr sy'n byw ar ei ben ei hun mewn llety rhent preifat ei fod wedi gorfod gofyn i'w deulu i'w helpu i wneud gwaith trwsio. Roedd hyn oherwydd bod mab y landlord yn gweithredu fel dolen gyswllt ac y byddai'n cynnal tri archwiliad misol o'r eiddo, ond prin y byddai'n dilyn hynny gydag unrhyw waith trwsio angenrheidiol.

Roedd 84% o'r myfyrwyr a holwyd yn teimlo nad oedd landlordiaid yn cymryd fawr o atebolrwydd am y problemau gyda'u tai, a bod asiantau gosod yn gweithredu fel clustogau rhwng y myfyriwr a'r landlord. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion roedd y cysylltiadau cyfathrebu rhwng yr asiant gosod a'r myfyriwr naill ai'n anghyson neu'n arwain at broblemau parhaus gyda chyflwr eu llety.

Y teimlad oedd bod myfyrwyr yn cael eu hystyried yn llai tebygol o fynd i'r afael â phroblemau difrifol ynghylch cyflwr eu tai, o gofio'r posibilrwydd uchel y gallen nhw adael yr eiddo ar ôl blwyddyn. Roedden nhw'n teimlo mai dyma'r rheswm pam nad oedd landlordiaid yn gwneud gwaith trwsio, a pham nad oedd asiantau gosod yn caniatáu cyfathrebu uniongyrchol rhwng tenantiaid a landlordiaid. Dywedodd 100% o fyfyrwyr bod y cyfrifoldeb am safon eu llety yn nwylo'r landlord.

Yn anffodus, dydy'r diwylliant hwn o laesu dwylo ddim yn broblem newydd. Ers 2012 mae UCM wedi rhyddhau cyfres o adroddiadau o'r enw Homes Fit for Study. Roedd eu hadroddiad yn 2014[9] yn edrych i'r materion hyn a dyma a ddywedodd yr Is-Lywydd Lles ar y pryd: *"there's a commonly held perception that poor quality student housing is a rite of passage, it is both disgusting and unacceptable that students should live in vermin infested housing in this day and age."*

Awgrymodd adroddiad ein harolwg UCM Cymru[10], *"mae atebolrwydd landlordiaid ac opsiynau ar gyfer cymorth yn gyfyngedig ac nid yw myfyrwyr yng Nghymru'n eu deall"*. Roedd yr adroddiad yn argymell dealltwriaeth well o reoleiddio llety myfyrwyr ac ymwybyddiaeth well o sut i herio arferion annheg.

## Cyfeirio, Cymorth a Chefnogaeth

***"Dwi'n meddwl bod aros am rywbeth i ddigwydd, yna delio â'r mater yn hytrach na gwirio pa gymorth sydd ar gael mas yna (yn broblem)"***
– Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

***"Efallai eu bod nhw'n cymryd mantais ar fyfyrwyr achos dydyn nhw ddim yn gwybod pwy sydd ar gael i siarad drostyn nhw."***
– Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

Roedd pob un o'r myfyrwyr a holwyd gennym yn teimlo bod angen mwy o eglurder ar lle i droi am gyngor a gwybodaeth. Dywedodd 67% eu bod wedi edrych ar-lein neu wedi gofyn i fyfyrwyr eraill. Byddai'r wybodaeth benodol a fyddai'n werthfawr iddyn nhw, yn eu barn nhw, yn cynnwys:

- esboniadau manylach am y broses o wneud cais am dai ac adnewyddu contractau.
- gwybodaeth am yr hyn y dylech ei ddisgwyl gan eiddo rhentu preifat, amwynderau, a chyngor ar gasglu sbwriel.

[9] www.sos-uk.org/research/homes-fit-for-study
[10] sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Sylfeini-simsan-Datrys-llety-myfyrwyr.pdf

- canllawiau ar beth i'w wneud pan nad yw asiant gosod neu landlord yn ymateb i broblemau gyda'r eiddo.
- cymorth i wneud cais i'r llys hawliadau bach.
- gwybodaeth am sut i ddefnyddio systemau gwresogi'r DU, yn enwedig i fyfyrwyr rhyngwladol o hinsoddau cynhesach, a oedd yn anghyfarwydd â systemau gwres canolog.

Dywedodd y myfyrwyr fod gan y Brifysgol ran i'w chwarae o ystyried nifer y myfyrwyr maen nhw'n eu denu i Gaerdydd, gan gydbwyso hynny ag argaeledd ac ansawdd tai myfyrwyr.

***"Mae angen i Undeb Myfyrwyr Caerdydd godi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r amddiffyniad sydd ar gael i denantiaid sy'n fyfyrwyr."***
- Myfyriwr sy'n rhentu ar ei ben ei hun

Roedd un myfyriwr yn teimlo y byddai stondin Undeb y Myfyrwyr neu rywbeth tebyg i roi cyngor ar faterion tai yn benodol, o fudd mawr.

***"Doeddwn i ddim yn ystyried cyngor a chymorth wrth chwilio am lety, felly doedd hynny ddim yn rhan o'r broses benderfynu. Trueni na wnes i ystyried hynny ar y pryd."***
- Myfyriwr sy'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth

Roedd un myfyriwr wedi derbyn cymorth gan Acorn, undeb cymunedol sy'n helpu pobl â phroblemau tai, ac yn teimlo y gallai'r Brifysgol godi ymwybyddiaeth o Acorn neu wasanaethau tebyg.

Teimlwyd y dylai cymorth gan Shelter Cymru fod ar gael yn haws, gan ddweud bod amseroedd aros hir am sesiynau galw heibio mewn canolfannau neu hybiau cymunedol lleol. Roedd un myfyriwr yn argymell defnyddio'r hysbysfyrddau mewn ardaloedd poblog ar gyfer myfyrwyr Caerdydd, i dynnu sylw at wasanaethau Shelter Cymru.

Cynigiwyd ateb ymarferol arall gan ymatebwr yr arolwg, sef sefydlu fforwm drafod i rannu profiadau o landlordiaid penodol gyda myfyrwyr newydd.

Fel yn achos yr arolwg, roedd llawer o'r rhai a holwyd yn poeni bod safon eu llety yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar eu hastudiaethau, gan waethygu problemau iechyd meddwl presennol ac achosi gorbryder, yn enwedig adeg arholiadau. Mae'n ymddangos bod cyfeirio effeithiol at wasanaethau iechyd meddwl yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw wasanaeth cyngor a chymorth i fyfyrwyr.

# Casgliadau

Mae safon tai myfyrwyr wedi bod yn adnabyddus am eu hansawdd gwael ers degawdau. Roedd hyn pan oedd llety myfyrwyr yn rhatach na mathau eraill o dai, ond gyda chostau'n mynd drwy'r to, mae bellach yr un mor anodd dod o hyd i rywle fforddiadwy i fyw ag y mae i ddod o hyd i rywle o safon sy'n addas i fyw yno.

Mae'r arolwg hwn yn dangos bod llu o broblemau gyda llety myfyrwyr yn y brifddinas, ond bod hyn yn

adlewyrchiad bras o'r hyn a welwn ni ledled Cymru gyda'r farchnad rhentu i fyfyrwyr a'r boblogaeth yn gyffredinol.

Mae problemau fforddiadwyedd, effeithiau costau byw cynyddol, cyflwr eiddo ac yn arbennig tamprwydd a llwydni yn gyffredin yng ngwaith achos dyddiol Shelter Cymru. Yr hyn sy'n sefyll allan i ni o safbwynt llety myfyrwyr yw'r diwylliant hirsefydlog o laesu dwylo ymhlith darparwyr llety a gwendid ymddangosiadol llais y rhentwr denant.

Fel y dywedodd arolwg cynharach UCM Cymru[11] *"mae'r canfyddiad hwn, sef bod pob myfyriwr yn byw mewn tŷ gwael a bod hynny'n rhan o'r daith, yn annheg ac yn gelwydd. Gall y diffyg empathi neu gydymdeimlad y mae myfyrwyr yn ei deimlo wrth geisio llywio trwy'r farchnad lety ddeillio o nifer o resymau. O atgofion pobl o'u hamser fel myfyrwyr, i argraffiadau neu ddisgwyliadau cymdeithas neu rywbeth arall yn llwyr. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'n amlwg bod angen i ni newid y diwylliant cyfredol sydd gan lety myfyrwyr os ydym mewn difrif yn awyddus i wella profiadau myfyrwyr yng Nghymru a'u llety."*

Ar lefel Undeb Myfyrwyr unigol, mae llawer y gellid ei wneud i godi ymwybyddiaeth o hawliau tai myfyrwyr a'r rheoliadau sydd ar waith i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid gyflawni eu rhwymedigaethau. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn gyfle i adolygu'r gwasanaeth cynghori cyfredol yng ngoleuni problemau cyfredol a phroblemau sy'n datblygu fel dyledion, arbed ynni ac iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu teilwra i anghenion presennol myfyrwyr a'u bod yn cael eu cydlynu'n effeithiol.

Mae Shelter Cymru yn gobeithio bod ein gwaith wedi mynd peth o'r ffordd i dynnu sylw at y sefyllfa sy'n wynebu'r rhai sy'n profi'r gwaethaf ym myd llety myfyrwyr. Trwy roi'r wybodaeth i fyfyrwyr am yr hyn y dylen nhw allu ei ddisgwyl yn haeddiannol a beth i'w wneud pan na chaiff ei gyflawni, rydyn ni'n cryfhau eu llais yn y frwydr i sicrhau bod gan bawb le diogel i'w alw'n gartref.

[11] sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Sylfeini-simsan-Datrys-llety-myfyrwyr.pdf



# Argymhellion

Yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr am ganfyddiadau allweddol ein hymchwil, rydyn ni'n cyflwyno'r argymhellion canlynol ar sut y dylid llywio gwasanaethau cynghori'r dyfodol a'r hyn y dylai gwaith ymgyrchu ganolbwyntio arno.

## Fforddiadwyedd a chostau byw

- **Ystyried rôl Undeb y Myfyrwyr wrth hwyluso cyngor ar ddyledion i denantiaid neu gryfhau cysylltiadau â gwasanaethau presennol y Brifysgol.**

  Dydyn ni ddim yn gweld diwedd pendant i'r argyfwng costau byw a bydd myfyrwyr yn parhau i fod yn agored i gostau tai cynyddol a biliau hanfodol eraill. Mae'n bwysig bod cymorth addas ar gael fel y bo'r angen er mwyn sicrhau'r lefelau incwm uchaf a lleihau straen ariannol.

- **Adolygiad o'r cyngor ar effeithlonrwydd ynni a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr.**

  Roedd cost gwresogi yn benodol yn thema gref yn ein canfyddiadau, a chredwn fod cyfleoedd yma i Undeb y Myfyrwyr roi cyngor ymarferol i fyfyrwyr ar bethau y gallan nhw eu gwneud eu hunain i gynhesu eu cartrefi'n well. Efallai y bydd Undeb y Myfyrwyr am ystyried meithrin partneriaeth gyda gwasanaeth cyngor arbenigol allanol fel Cymru Gynnes.[12]

## Argaeledd

- **Datblygu Strategaeth Gyfathrebu Tai-Benodol i rymuso myfyrwyr a allai deimlo dan bwysau neu heb fawr o wybodaeth cyn llofnodi contract llety rhent preifat.**

  Rydyn ni'n deall y pwysau y gall proses adnewyddu contract ei roi ar fyfyrwyr ac effaith gwneud penderfyniadau gwael o bosib, dan bwysau, ynghylch dewisiadau llety yn y dyfodol. O drafod gydag Undeb y Myfyrwyr, rydyn ni hefyd yn deall mai rhywbeth wedi'i greu gan asiantau i raddau yw gorfod llofnodi contract adnewyddu mor gynnar yn y tymor i sicrhau parhad incwm, a bod hyn yn chwarae ar ansicrwydd myfyrwyr sy'n poeni am fethu dod o hyd i lety y flwyddyn ganlynol.

  Yn y tymor hwy dylid ceisio ymgysylltu â landlordiaid ac asiantau ynglŷn â'r arfer hwn - mewn partneriaeth â'r Brifysgol o bosib - gan eu hatgoffa bod mwy o ddewis ac y gall penderfyniadau llety amserol, gwybodus, arwain at denantiaethau mwy cynaliadwy a llai o broblemau rheoli. Yn y tymor byr dylid mabwysiadu dull ataliol

[12] www.warmwales.org.uk/cy/

trwy rymuso myfyrwyr a'u hatgoffa o'u hawliau fel deiliad contract.

- **Pwysleisio'r ffaith y dylai Prifysgol Caerdydd fabwysiadu dull *"dyletswydd gofal"* tuag at bob myfyriwr sy'n canfod ei hun yn ddigartref yn sgil diffyg llety.**

  Fel elusen digartrefedd, rydyn ni'n hynod bryderus i glywed straeon am fyfyrwyr digartref heb le diogel ac addas i'w alw'n gartref neu sy'n ystyried gadael eu cwrs oherwydd diffyg llety. Deallwn fod rhywfaint o gymorth lles ar gael i fyfyrwyr yn y sefyllfa hon a threfniadau i ddarparu llety brys ar sail tymor byr iawn h.y., 24-48 awr.

  Does dim arwydd y bydd ein hargyfwng tai ehangach ac effaith hynny ar lety myfyrwyr yng Nghaerdydd yn diflannu'n fuan iawn. Credwn y dylai'r Brifysgol gymryd ymagwedd *"dyletswydd gofal"* ehangach tuag at fyfyrwyr sydd ag anghenion tai ac y dylai ystyried pa ddarpariaeth bellach y gellid ei rhoi ar waith.

  Dydy cymorth awdurdodau lleol ddim yn opsiwn yn aml, gan nad oes gan fyfyrwyr gysylltiad lleol â Chaerdydd. Un awgrym a wnaed i ni oedd y gallai canran fechan o lety sy'n eiddo i'r brifysgol gael ei neilltuo ar gyfer myfyrwyr digartref. Gellir disgwyl y bydd cyfran o fyfyrwyr yn cael eu hunain yn ddigartref ac mae angen i brifysgolion ac undebau myfyrwyr gynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn.

- **Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau academaidd eraill yng Nghaerdydd er mwyn deall tueddiadau twf yn y dyfodol, a'r effaith ar yr holl alw am lety yn y ddinas.**

  Y nod fydd deall sut y gall newidiadau i nifer y myfyrwyr a'u gofynion effeithio ar argaeledd, safon llety myfyrwyr a'r galw amdano. Hefyd, gellid meithrin cysylltiadau â gwasanaethau strategol priodol y Cyngor megis y Cynllun Datblygu Lleol.

## Cyflwr eiddo

- **Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth benodol am damprwydd a llwydni a'r gofyniad i annedd fod yn addas i bobl fyw yno.**

  Roedd hon yn broblem benodol yn ystod y gaeaf/gwanwyn 2022/23 ac mae'n debygol o ddigwydd yn y flwyddyn academaidd nesaf. Gall cyddwysedd, tamprwydd treiddiol neu damprwydd codi achosi lleithder, a dydy hi ddim bob amser yn hawdd canfod pwy sy'n gyfrifol am ddatrys problemau gan ei bod yn aml yn anodd mynd at wraidd y broblem. Byddai'n fuddiol rhoi gwybod i fyfyrwyr am yr achosion sy'n gyfrifol am hyn, beth allan nhw ei wneud eu hunain, a pryd mae'r cyfrifoldeb yn nwylo'r landlord.

  Ers 1 Rhagfyr 2022, mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn nodi'r rhwymedigaethau a roddir ar landlordiaid o ran cyflwr annedd. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i bob contract meddiannaeth sy'n para am dymor o hyd at saith mlynedd. Dan gontract meddiannaeth, mae'n ofynnol i landlord sicrhau bod annedd mewn cyflwr da ac yn addas i bobl fyw ynddo.

  Mae hyn yn cynnwys materion fel tamprwydd a thyfiant llwydni, oerni, gwres, gorlenwi a gofod, mynediad gan dresmaswyr, goleuadau, sŵn a hylendid. Rhaid i landlord gadw'r annedd mewn cyflwr da bob amser. Unwaith y bydd y landlord yn ymwybodol o'r angen am waith atgyweirio, rhaid cyflawni'r gwaith o fewn cyfnod rhesymol ac i safon resymol. Mae canllawiau manwl[13] yn amlinellu'r camau y gall landlord eu cymryd i helpu i sicrhau bod yr annedd yn addas.

- **System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)[14] ar gyfer cynghorwyr Undeb Myfyrwyr Caerdydd.**

  Dyma'r safon sy'n cael ei defnyddio gan swyddogion iechyd yr amgylchedd i asesu addasrwydd eiddo a chymryd camau yn erbyn landlordiaid lle nodwyd peryglon. Credwn y byddai'n ddefnyddiol i gynghorwyr gael gwybodaeth am HHSRS er mwyn gallu cynghori myfyrwyr pan allai atgyfeiriad at iechyd yr amgylchedd fod yn briodol. Mae hyfforddiant ar gael gan sawl darparwr.

- **Mwy o bwyslais ar gyflwr eiddo a gwasanaethau cwsmeriaid sy'n cael eu profi mewn neuaddau prifysgol.**

  Roedd ein hymchwil yn tynnu sylw at nifer o bryderon gyda neuaddau preswyl sy'n eiddo i'r brifysgol, a byddem yn argymell darn o waith manylach - o ddrws i ddrws efallai – i chwilio ymhellach i hyn.

[13] www.llyw.cymru/ffitrwydd-tai-i-fod-yn-gartref-canllawiau-i-landlordiaid-html
[14] www.llyw.cymru/system-mesur-iechyd-diogelwch-ar-gyfer-tai-canllawiau

## Atebolrwydd a Chamau Unioni

- **Ystyried sut y gall myfyrwyr ar draws carfanau blwyddyn gwahanol rannu gwybodaeth am arferion landlordiaid ac asiantau penodol.**

  Gallai hyn fod trwy fforwm ar-lein a gynhelir gan Undeb y Myfyrwyr, neu rydyn ni hefyd yn ymwybodol o wasanaeth sgorio'ch landlord ar y we[15] y gellid ei hyrwyddo.

- **Mabwysiadu cynllun achredu asiantau gosod.**

  Rydyn ni'n deall bod gwaith yn mynd rhagddo ar draws Undebau Myfyrwyr yng Nghaerdydd i sefydlu cynllun achredu asiantau gosod. Byddai asiantau sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio ag ystod o safonau rheoli a chynnal a chadw yn cael cydnabyddiaeth ffurfiol gan yr undebau, gan roi sicrwydd i fyfyrwyr am yr eiddo a'r trefniadau o ran cytundebau. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn ac mae ganddo'r potensial i godi safonau eiddo a disgwyliadau o safbwynt cyfathrebu â thenantiaid sy'n fyfyrwyr.

- **Dylid creu cysylltiadau cryfach â Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Cyngor y Ddinas.**

  Rydyn ni'n deall bod rhywfaint o gyswllt rhwng Undeb Myfyrwyr Caerdydd a thîm gorfodi'r cyngor ond teimlwn y byddai deialog amlach a strwythuredig yn briodol. Byddai hyn er mwyn rhannu manylion am broblemau gyda landlordiaid penodol, helpu i lywio ymgyrch addysg ar safonau a rheoliadau eiddo, neu gynnig llwybr i ymgysylltu rhagweithiol â landlordiaid/asiantau trwy fforwm landlordiaid y Cyngor. Gellid trafod protocolau hefyd ar gyfer sut y gallai'r ddau dîm weithio gyda'i gilydd i gyflymu cwynion a chamau gorfodi.

## Cyfeirio, Cymorth a Chefnogaeth

- **Datblygu strategaeth gyfathrebu/addysg er mwyn sicrhau bod myfyrwyr newydd a rhai yn eu blwyddyn gyntaf sy'n gadael neuaddau'r brifysgol yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol.**

  Y nod yma yw arfogi myfyrwyr, a'u rhwydweithiau cymorth, gyda'r wybodaeth am yr hyn y dylen nhw allu ei ddisgwyl yn haeddiannol, a beth i'w wneud pan nad yw hyn yn cael ei gyflawni cyn iddyn nhw ddechrau cael problemau gyda'u llety. Drwy gryfhau llais y myfyrwyr, dylai Undeb y Myfyrwyr geisio chwalu diwylliant o laesu dwylo a sicrhau bod gan bob myfyriwr le diogel i alw'n gartref.

- **Cynnal arolwg llety blynyddol.**

  Bydd hyn yn llywio gwaith Cyngor Myfyrwyr yn y dyfodol ac yn sicrhau bod modd creu tystiolaeth o'r problemau sy'n wynebu myfyrwyr gyda'u llety ar hyn o bryd, megis safon, argaeledd, atebolrwydd, trwy flaenoriaethau cyflenwi gwasanaethau ac ymgyrchu.

[15] www.rateyourlandlord.org.uk/